

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo a gynhaliwyd Nos Iau, 10 Hydref 2018 yn Neuadd Pentref Carmel

Minutes of the Cemeteries & Property Committee held Thursday, 10 October 2018 at Carmel Village Hall

Yn bresennol - Present

Aelodau'r Cyngor / Council Members - Cynghorwyr Clive Bayley; Gwyn Owen Jones; Alun Wyn Jones
Helen Hughes.

David Roberts, Rheolwr Cweinyddol a Chyllid y Cyngor / Council Admin & Finance Manager.

Yn bresennol ar gyfer eitem 4 – Mr a Mrs Cara Whomsley, Capel Cilgwyn

1 Croeo'r Cadeirydd – Chairmans Welcome

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Cadeirydd y Pwyllgor sef Cyng. Clive Bayley. Croeaswodd Mr a Mrs Whomsley i'r cyfarfod ar gyfer eitem 4 – Ciosg Cilgwyn. Aeth ymlaen at y rhaglen yn syth.

Cllr. Clive Bayley welcomed all to the meeting in particular Mr and Mrs Whomsley of Cilgwyn Chapel. He proceeded straight to the evenings business

2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences

Cyng. Alan Patterson;

3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000/ *To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000*

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol na buddiant yn rhagfarnu gan aelodau oedd yn bresennol.

No declaration of personal or prejudicial interest was made by those present

4 Ciosg Cilgwyn / Cilgwyn Kiosk

Croesawyd Cara Whomsley a'i chymer i drafod y cytundeb.

Adroddwyd gan y Clerc fod Cwmni BT wedi tynnu'r offer o'r ciosg gan gynnwys pob offer trydanol.

Aethpwyd trwy'r cytundeb gyda Mr a Mrs Whomsley ac 'roedd y ddau yn cytuno gyda'i gynnwys.

Bydd Cara Whomsley yn arwyddo'r gytundeb a'i ddychwelyd i'r Rheolwr Gweinyddol a Chyllid yn syth.

7:30 - Diolchodd y Cadeirydd i Mr a Mrs Whomsley am ddod i'r cyfarfod.

Argymhelliad i'r Cyngor –

- i) ***Fod y Cyngor yn nodi a derbyn fod y cytundeb rhwng y Cyngor a Mr a Mrs Whomsley o Gapel Cilgwyn wedi ei arwyddo***

Recommendation to the Council –

- i) ***For the Council to note that the agreement between the Council and Mr & Mrs Whomsley has now been signed by both parties.***

5 Llochesi Bws Diweddariad – Bus Shelters - Update

Lloches Gardd y Coleg –

Trafodwyd pris Gerwyn Jones, Pensaer oedd yn £1900 ar gyfer cynlluniau i ail-leoli'r lloches i ddau safle yn benodol-

Safle A - ail-leoli yn y cornel lle safai'r lloches ond ei droi i wynebu'r ffordd ar y palmant

Safle B - ail-leoli rhwng Sgwâr Y Coleg a'r safle presennol, gyferbyn a rhifau 1,2.3 a 4 Tai Pisgah.

Barn y pensaer oedd y gall y gwaith ar Safle A gostio hyd at £8,000, oherwydd y gwaith ar y lefelau ac ail wneud y waliau. Roedd hefyd yn rhagweld problemau gyda gosod llinellau melyn ar y lon gan fod y lloches yn agos i fynedfa y maes parcio ac yr hen bost.

Awgrymodd mai yr opsiwn orau, a rhataf ,fyddai i'r Cyngor ystyried ail-leoli ar Safle B. Yr unig waith fyddai ei angen yma fyddai codi sylfaen o'r gardd at lefel y palmant a gosod y lloches arno. Nid oes unrhyw rhwystaru gyda lefelau ac wedi gosod "drop kerbs" byddai yn rhwydd i gadair olwyn gael mynediad iddo.

Rhaid nodi yma fod unrhyw benderfyniad yn ddarostyngedig o dderbyn caniatâd gan y Pwyllgor Pentref sydd yn gyfrifol am yr ardd.

Sylwadau Aelodau

HH - byddai'r proses hawl cynllunio yn rhoi cyfle i berchnogion y tai cyfagos i wrthwynebu. Mater i Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd fydd caniatáu y cais ai peidio.

Barn yr aelodau oedd y dylid symud ymlaen gyda'r syniad o ail-leoli'r lloches yn Safle B gan y byddai'r gwaith , o bosib, oddi fewn y gyllideb bresennol ac yn cael ei gyflawni yn fuan , yn amodol ar caniatad y Pwyllgor Pentref a'r Adran Gynllunio.

Argymhelliad i'r Cyngor –

- i) *Fod y Cyngor yn gollwng y syniad o ail-leoli'r lloches yn Safle A.***
- ii) *Fod y Cyngor yn cymeradwyo a chefnogi'r syniad o ail-leoli'r lloches yn Safle B***
- iii) *Fod y Cyngor yn gofyn i'r Pwyllgor Mynwentydd gynnal y trafodaethau gyda'r Pwyllgor Pentref (sydd yn gyfrifol am Gardd y Coleg)***
- iv) *Fod y Cyngor, os ydi'r Pwyllgor Pentref yn caniatáu ail-leoli'r lloches yn Safle B, yn gwneud ymholiadau gyda'r Adran Cynllunio I geisio darganfod a oes angen hawl cynllunio.***

Recommendation to the Council –

- i) That the Council drops the idea of relocating the shelter at Site A***
- ii) That the Council supports and approves the idea of re-locating the shelter at Site B.***
- iii) For the Council to ask the Cemeteries and Property Committee to conduct the discussions with the Village Committee (who are responsible for the Garden)***
- iv) For the Council, if the Village Committee gives its approval to relocate to Site B, makes enquiries with the Planning Department of Gwynedd Council to seek guidance if planning approval is required.***

Lloches Bws Y Fron –

Trafodwyd cais Cyng. Eddie Willcox I symud y lloches dwy droedfodd yn ol o'l safle presennol gan nad yw, yn debyg , yn cydymffurfio a hawliau Mynediad Anabledd -

Sylwadau Aelodau

Carmel yw y flaenoriaeth. Dim cyllid ar gyfer y gwaith hwn yn 2018-19 , er deallir fod EW wedi cael addewid o £400 gan Grwp Cyswllt Moel Trfan ac Alexandra.

Argymhelliad i'r Cyngor –

- i) **Fod y Cyngor yn cytuno gyda'r Pwyllgor nad yw y gwaith ar lloches y Fron yn flaenoriaeth**
- ii) **Fod y Cyngor yn cynnwys y gwaith ar y Rhestr Blaenoriaethau**

Recommendation to the Council –

- i) **That the Council agrees that the work on the Fron Shelter is not a priority**
- ii) **That the Council notes the work that is required and keeps it on the Spending Priorities list.**

6 Ffioedd Claddu 2019-20 – Burial Fees 2019-20

Dosbarthwyd y canlynol gan y Swyddog.

- Copi o'r ffioedd cyfredol 2018-19
- Papur Gwaith yn dangos ffioedd 2019-20 ar sail cynnydd o 1.5%
- Ffioedd Cyngor Cymuned Llanwnda

Nid oedd yr aelodau yn teimlo fod yna unrhyw werth i gyfarfod gyda Chyngor Llanwnda i drafod y prisiau. Mater i Lanwnda ydy cynyddu eu prisiau os am ddod yn agosach i ffioedd y Cyngor hwn a Chyngor Gwynedd. Oherwydd pwysau ariannol nid oedd yr aelodau am argymhell ostwng y prisiau i ddod yn agosach at Lanwnda.

Argymhelliad yr aelodau felly yw cynyddu'r ffioedd 1.5% ac i'r £1 agosaf yn 2019-20 fel a ganlyn-

Yn y Gymuned / In The Community	Ffi 2018-19	Cynnydd 1.5%	Gwir Gynnydd £	Cynnydd % yn 2019-20
Ffi Prydles Hawl Claddu Cyfyngedig - Arch	£175	£178	£3	1.69%
Ffi Claddu - Arch	£140	£142	£2	1.41%
Ffi Prydles Claddu Lluch	£140	£142	£2	1.41%
Ffi Hawl Claddu Lluch	£140	£142	£2	1.41%
Plentyn (at 18 oed) – ffi i'w dalu gan Cyngor Gwynedd nid gan y rhiant	£140	£142	£2	1.41%
Ffi ymchwil	£46	£46	£0	0%

Tu allan i'r gymuned/ Outside the Community	Ffi 2018-19	Cynnydd 1.5%	Gwir Gynnydd £	Cynnydd % yn 2019-20
Ffi Prydles Hawl Claddu Cyfyngedig - Arch	£525	x 3 tu fewn	£9	1.69%
Ffi Claddu - Arch	£420	x 3 tu fewn	£6	1.41%
Ffi Prydles Claddu Lluch	£420	x 3 tu fewn	£6	1.41%
Ffi Hawl Claddu Lluch	£140	x 3 tu fewn	£6	1.41%
Plentyn (at 18 oed) – ffi i'w dalu gan Cyngor Gwynedd nid gan y rhiant	£420	x 3 tu fewn	£2	1.41%
Ffi ymchwil	£46	£46	£0	0%

Argymhelliad i'r Cyngor

Fod y Cyngor yn cynyddu'r ffioedd fel y nodir isod yn weithredol o 1 Ebrill 2019

Recommendation to the Council

That the Council increases the fees as noted from 1 April 2019

7 Cofebfeini Brynrhos a Bryn'rodyn – Memorial Headstones World War 1

Cafwyd diweddariad gan y Rheolwr.

Rheolwr wedi dileu'r archeb waith i Gwmni Inigo Jones oherwydd bod yna ansicrwydd a fyddai'r gwaith wddi ei gwblhau erbyn Diwrnod Y Cofio ar 11 Tachwedd

- Cwmni Angladdau Roberts ac Owen wedi cael archeb i dynnu'r cofebfeini a'i glanhau
- Y gwaith uchod wedi ei gyflawni
- Pwyllgor Neuadd Groeslon yn trefnu gydag Elfyn Ellis, Adeiladwr i osod y cerrig ar y Neuadd. Y Cyngor fydd yn ysgwyddo'r cost.
- Iolo Owen, o Gwmni Roberts ac Owen wedi cysylltu yn diolch i'r Cyngor am dderbyn y cyfrifoldeb dros y cofebfeini ac yn ildio'r ffi am y gwaith

AWJ - Mr Les Williams ac Alwena Williams o'r Groeslon wedi derbyn caniatâd y Pwyllgor Neuadd I osod plac newydd gydag enw ewythr iddo a fu farw yn 1919 yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Argymhellion i'r Cyngor -

- Fod y Cyngor yn nodi'r wybodaeth***
- Fod y Cyngor yn gofyn i'r Rheolwr i anfon llythyr o ddiolch I Roberts ac Owen am gyflawni'r gwaith ar fyr rybudd ac am ildio'r ffi***

Recommendation to the Council

- That the Council notes the information***
- That the Council sends a letter to Iolo Owen of Roberts & Owen to thank him for completing the work at such short notice and for surrendering the fee***

8 Meinciau– Benches

Trafodwyd meinciau Bryn'rodyn a Bethesda Bach –

CB - fainc Bethesda Bach mewn cyflwr eithaf. Wedi cael coed newydd yn ddiweddar. Ddihim yn flaenoriaeth i'w adnewyddu.

AWJ – fainc Bryn'rodyn. Sylw wedi ei wneud gan ymwelwyr y fynwent nad oes mainc ger y wal. Dywedodd y Rheolwr fod yr hen fainc wedi ei ddymchwel gan ei fod mewn cyflwr gwael. Awgrymwyd y dylid ystyried prynu'r fainc yn lleol. Nodwyd fod Menter Fachwen yn rhesymol eu prisiau.

Argymhellion i'r Cyngor

Fod y Cyngor yn prynu mainc newydd ar gyfer fynwent Bryn'rodyn.

Recommendation to the Council

For the Council to purchase a bench for Bryn'rodyn cemetery

9 Blaenoriaeth Gwariant y Cyngor–Council Spending Priorities

Dosbarthwyd rhestr gan y Rheolwr o faterion oedd angen sylw, neu faterion oedd wedi dod gerbron y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

Aeth yr aelodau trwy'r rhestr lein wrth lein gan osod sgôr o 1 blaenoriaeth I 5 ddim yn flaenoriaeth -

Nodwyd nad oedd cyllideb ar gyfer y mwyafrif o'r gwaith oedd wedi ei rhestru. Mater i'r Pwyllgor Cyllid, ac yna'r Cyngor fyddai adnabod cyllideb yn 2018-19 ac wrth sefydlu cyllideb 2019-20

Argymhellion i'r Cyngor –

Fod y Cyngor yn derbyn y sgôr fel y nodir ar y rhestr Blaenoriaeth Gwariant..

Recommendation to the Council

For the Council to accept the scores as noted on the Spending Priorities list

Daeth y cyfarfod i ben am 8:40 yr hwyr / Meeting closed at 8.40pm
--

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -	
Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor	
Dyddiad -	